

Adders are Amazing! Gwiberod Gwych!

# 22. YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED

## CYFLWYNIAD

Wrth i chi wneud gweithgareddau Gwiberod Gwych!, gwerthfawrogwn fod llawer o bobl yn pryderu neu'n ansicr am wiberod, ac i raddau helaeth erthyglau camarweiniol yn y wasg sy'n gyfrifol am hyn. Gallai rhoi cyflwyniadau i grwpiau lleol eich helpu i oresgyn hyn. Os ydych yn sylwi ar agweddau negyddol at wiberod yn eich cymuned, er enghraifft gan bobl sy'n pryderu wrth iddynt gerdded eu cŵn, neu rieni, neu bryderon busnes ynghylch gwrthdaro gyda thwristiaeth; efallai y gallech fynd at grwpiau lleol e.e. y cyngor, clwb garddio, Sefydliad y Merched, U3A, i gynnig cyflwyniad a/neu weithdy, i helpu i liniaru hyn. Cyn i chi roi sgwrs neu gyflwyniad, ceisiwch ddeall anian y grŵp, a strwythurwch eich deunyddiau i gyfateb â hynny. Rydym hefyd yn argymhell y dylech fod yn barod i drafod unrhyw bryderon sy'n gysylltiedig â gwiberod mewn ffordd adeiladol. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn dawel eu meddwl unwaith y byddant yn darganfod y gwir am wiberod, ond mae'n well eu gadael nhw i gynnig atebion eu hunain fel cymuned, gan eu bod yn fwy tebygol o fod yn gynaliadwy.

## DEFNYDDIAU:

- Neuadd y pentref/ystafell gyda byrddau a chadeiriau
- Pobl i gymryd rhan! Hysbysebwnch a hyrwyddwch.
- Darnau mawr o bapur, fel papur wal
- Tâp masgio
- Pennau/pensiliau/pennau ffelt
- Pennau ffelt mawr
- Fflipsiart (dewisol)
- Uwchdaflunydd a glianiadur (mae gan y rhan fwyaf o grwpiau fynediad at y rhain)

## GWNEWCH!

**1** Leiniwch y byrddau gyda phapur a gofynnwch i'r rheiny sy'n cymryd rhan yn y gweithgaredd i ysgrifennu eu pryderon, eu syniadau ac unrhyw straeon sydd ganddynt yn ymwneud â gwiberod. Coladwch y rhain a rhowch gyflwyniad am wiberod, gan roi sylw i'w barn a'u pryderon. Ewch ar drywydd y syniadau gyda thirfeddiannwyr a gwirfoddolwyr lleol perthnasol.

**2** Ewch â modelau nadroedd, teganau meddal, sgerbydau - unrhyw beth i roi profiad ymarferol ac i ddangos i'r rheiny sy'n cymryd rhan mor fach yw gwiberod mewn gwirionedd! Byddwch yn frwdfrydig ac yn bositif, a pheidiwch ag amharchu teimladau. Mae pobl yn fwy tebygol o newid eu hagweddau os ydynt yn teimlo bod pobl yn deall eu safbwynt.

